**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun Tachwedd 18eg 2019 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng Alyn Ashworth (Is-gadeirydd), Gaynor Morgan-Rees, Dyfrig Berry & Irene Williams; & Jenny Barlow (Clerc Y Dref)

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens & Rob Parkes.

**Arsylwi:** Cyng Rhys Thomas

Croesawodd yr is-gadeirydd bawb i gyfarfod mis Tachwedd.

Cafodd y Cyng Rhys Thomas ganiatâd y Cadeirydd i ddiweddaru'r cynghorwyr tref ar gais 4.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Lun 21ain o Hydref 2019.**

3. **Materion yn codi** - Derbyniwyd diweddariad ynghylch cais cynllunio 01/2019/0757 - cyfarfod mis Hydref.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y ceisiadau isod fodd bynnag, ychwanegodd y cynghorwyr tref sylwadau at gais 1 a 4.

   1) 01/2019/0849
   Tir yn (rhan o ardd) Min Y Coed, Lawnt, Dinbych
   Newid defnydd tir trwy leoli siales gwersylla.

   Hoffai'r cynghorwyr tref gynghori bod gwybodaeth ar goll o dan wybodaeth ychwanegol - mae eitem 1 ar goll, mae'r ddogfen yn mynd yn syth i eitem 2. Hefyd mae'r ymgeisydd wedi ticio bod arolwg coed llawn wedi'i wneud, ond nid yw hyn yn cael ei arddangos.

   Mae angen gwneud amod i sicrhau na ddefnyddir y siale fel preswylfa barhaol.

   2) 01/2019/0920
   5 Plan Yn Green, Dinbych
   Codi estyniad llawr cyntaf i annedd bresennol a gwaith cysylltiedig

   3) 01/2019/0924
   Ysgol Uwchradd Dinbych, Ffordd Rhuthun, Dinbych
   Adeiladu cyfluster troetffordd /llwybr beicio a gwaith cysylltiedig

   4) 01/2019/0932
   Clwb Gleidio Dinbych, Dinbych
   Amrywio amod 3 o ganiatad cynllunio cyfeirnod 01/2019/0996/pf i hwyluso'r defnydd o gaban cludadwy ar gyfer darpar cysgodfan a storfa ddiogel ategol i gynnal a chadw ac atgyweirio awyrennau ac offer cysylltiedig.

Hoffai'r cynghorwyr tref nodi nad oes unrhyw broblem gyda'r gweithdy ond mae angen gwneud amod newydd i sicrhau nad yw'r caban cludadwy yn cael ei ddefnyddio fel man cysgu.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.43yh.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………